FFORWM MYNEDIAD LLEOL WRECSAM

COFNODION WEDI'U CADARNHAU

o'r pedwerydd cyfarfod ar hugain a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Wrecsam ar 26 Ionawr 2007.

01/07 YN BRESENNOL AC YMDDIHEURIADAU

Yn bresennol:

CADEIRYDD	YSGRIFENNYDD
Clive Menzies	GWEITHREDOL
	Katie Birks

AELODAU	ERAILL NAD YDYNT YN AELODAU
Gerald Moss	Aaron Sollis
Margaret Murphy	Martin Howorth
Sue Gittins	Peter Bland
John Cooper-Poole	Dave Smith
Mike Crawshaw	Alun Price
Karl Prakel	
Mavis McBride	
Edward Wardle	
Tim Rosselli	

Ymddiheuriadau: Ieuan Lewis, Gwynfor D Jones a John Marchant.

02/07 Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2006.

36/06 Eglurhad am yswiriant

Cyfeiriwyd yr aelodau at ohebiaeth gan Gyngor Sir Powys a oedd yn nodi y byddai Powys yn mynnu bod gan weithwyr gwirfoddol yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, er nad ydynt yn cael eu goruchwylio gan weithwyr y Cyngor o reidrwydd.

Cytunodd y Fforwm bod y mater hwn wedi'i archwilio'n llawn.

39/06 Hyfforddiant i aelodau

Roedd aelodau'r fforwm yn hapus â'r ddogfen 'Cwestiynau Cyffredin' a ddosbarthodd John Marchant, a chytunwyd ei fod yn gyflwyniad da i faterion mynediad.

Fodd bynnag, teimlai Sue Gittins bod yr adran olaf ar dudalen 10, braidd yn aneglur a bod angen iddi nodi y byddai llwybrau newydd mor agos ag sy'n bosibl at y rhai gwreiddiol (ac yn dod i ben yn yr un man).

Pe bai gwrthwynebiadau'n codi, mae'n bosibl y byddai'r achos yn mynd i Archwiliad Cyhoeddus.
Teimlai'r fforwm yn gyffredinol bod y ddogfen yn ddigonol i aelodau newydd.
GWEITHREDU: JOHN MARCHANT I NEWID Y DDOGFEN CWESTIYNAU CYFFREDIN YN UNOL Â'R UCHOD.

40/06 Ymgysylltiad pobl ifanc
Bydd Clive Menzies yn cysylltu â Juliet John, Hwylusydd Fforwm Ieuenctid Wrecsam, i drefnu cyfarfod rhwng y fforymau i drafod hamdden a mynediad yng nghefn gwlad.

53/06 Parcio mewn cilfannau / Ymgynghoriad y Cynllun Datblygiad Gwledig
Mae Alan Evans o'r Adran Priffyrdd am edrych ar yr ardal dan sylw cyn ymateb i'r fforwm maes o law.

Adroddodd Sue Gittins bod Partneriaeth Gogledd Gororau Cymru wedi creu Strategaeth Datblygiad Gwledig ddrafft sydd wedi'i chyflwyno i Gynulliad Cymru - nid oes unrhyw ddatblygiadau pellach ar hyn o bryd. Ar ôl derbyn atborth, efallai y bydd modd dechrau cyflwyno prosiectau posibl.

Aeth Karl Prakel i ddigwyddiad gweledigaeth Dyffryn Ceiriog ym mis Tachwedd. Dywedodd ei fod yn teimlo nad oedd hen deuluoedd Cymreig y dyffryn yn cael eu cynrychioli'n dda yn y digwyddiad ac nad oedd y mwyafrif o faterion yn berthnasol i gylch gorchwyl y FfMLl.
Bydd Ysgrifennydd y FfMLl yn cadw copi o'r ddogfen weledigaeth os bydd aelodau am gael ei gweld.

54/06 Cŵn yng nghefn gwlad
Adroddodd Clive bod pryder mawr am gŵn yng nghefn gwlad ar lefel genedlaethol ac yn y Fforwm Mynediad Cenedlaethol diwethaf, cynhyrchodd yr NFU adroddiad am y mater gan nodi dau faes y gellid eu defnyddio i helpu i reoli cŵn. Y cyntaf yw Adran 27 Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 a'r ail yw Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005.

Roedd Clive wedi ymchwilio i hyn ac nid oes unrhyw geisiadau Adran 27 Deddf Traffig y Ffyrdd wedi bod, yn rhannol oherwydd bod awdurdodau lleol yn credu bod y gost yn waharddol. Anghytunai Clive a dywedodd na fyddai hyn yn ddrud gan na fyddai rhaid hysbysebu'n genedlaethol, gellid edrych ar geisiadau a'u cyhoeddi'n lleol.
Yna byddai hyn yn galluogi tirfeddianwyr i osod arwyddion hawliau tramwy dros eu tir gan ddatgan bod rhaid cadw cŵn ar dennyn.
Soniodd Clive y byddai'n brawf diddorol i unigolyn wneud cais i'r awdurdod i brofi hyn.

Honnai Clive hefyd y gallai Cynghorau roi ceisiadau atal o dan y Ddeddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân. Fel enghraifft, mae

Cyngor Weymouth wedi gwneud gorchymyn sy'n gorfodi cŵn i gael eu cadw ar dennyn ar unrhyw briffordd yn y fwrdeistref.

Awgrymodd Clive y gallai Cynghorau Cymuned ystyried hyn mewn lleoliadau gwledig. Awgrymodd hefyd y gallai hwn fod yn faes y gallai'r awdurdod priffyrdd ei gyfeirio at y FfMLl i'w ystyried.

56/06 Gweithdai "Cynllunio Strategol ar gyfer Chwaraeon a Hamdden Dŵr" Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Nid yw dyddiadau'r gweithdai wedi'u trefnu hyd yma ond bydd y Fforwm yn cysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru maes o law.

61/06

- *Strategaeth codi proffil y FfMLl*

Adroddodd Clive Menzies ei fod wedi cael anhawster creu Strategaeth Codi Proffil gan fod anghydfod cenedlaethol ynghylch lle mae'r FfMLl yn mynd.
Hoffai'r awdurdodau llai gynnwys y FfMLl mewn materion ehangach, ond byddai'n well gan yr awdurdodau mwy gadw'r FfMLl fel corff strategol, felly nid oes llawer o gynnydd wedi bod ar hyn o bryd.

- *Cyhoeddiad "Cyswllt" a datganiad i'r wasg*

Cyfeiriwyd yr aelodau at gopi drafft o'r poster / cylchgrawn Cyswllt.
Dywedodd Mavis McBride yr hoffai weld "marchogaeth ceffylau a gyrru cart a cheffyl" yn cael eu crybwyll.
Ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach ac roedd y fforwm yn fodlon y dylai John Marchant eu cynhyrchu fel y gall aelodau eu dosbarthu yn eu cymunedau.
GWEITHREDU: John Marchant i newid y testun drafft a chynhyrchu'r posteri fel y gall aelodau eu dosbarthu.

- *Cyhoeddiad Rhaglen Ddigwyddiadau CBSW*

Derbyniodd aelodau'r fforwm gyhoeddiad "Gwybodaeth a Digwyddiadau 2007 " Gwasanaeth Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus Wrecsam.

66/06 Mapiau Rhyngweithiol

Ysgrifennodd y Fforwm at Gyngor Wrecsam yn gofyn iddynt edrych ar y mater hwn. Atebodd y Cyngor â llythyr cadarnhaol iawn.
Awgrymodd Clive y dylai'r aelodau edrych ar wefannau a awgrymwyd er mwyn gweld p'un a ydynt yn ddefnyddiol ai peidio.
Nododd Pete Bland nad oedd hawliau tramwy cyhoeddus ar wefan CBSW ar hyn o bryd, ond ar ôl gwneud rhywfaint o waith ymchwil mae Pete wedi canfod bod y cyfleuster yn addas ar gyfer ychwanegu gwybodaeth hawliau tramwy. Byddai angen gwneud rhywfaint o newidiadau, fodd bynnag, byddai angen i staff hawliau tramwy wirio'r wybodaeth eto - byddai hyn yn amlwg yn cymryd amser. Amcangyfrifodd Pete y gallai mapiau rhyngweithiol fod yn bosibl mewn 12-18 mis.

GWEITHREDU: Aelodau i edrych ar SHROPMAP a Map Cynllunio ar wefan Cyngor Sir y Fflint cyn cyfarfod nesaf y fforwm.

03/07 Adroddiad y Cadeirydd

Adroddodd Clive Menzies, y Cadeirydd Gweithredol, bod Ieuan Lewis i ffwrdd ar hyn o bryd ac nad oedd unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg ers cyfarfod diwethaf y FfMLl.

04/07 Adroddiad yr Ysgrifennydd

Hysbysodd Katie y fforwm bod Emma Haldane yn dychwelyd i'r gwaith ar 12 Chwefror 2007.

Diolchodd Katie i'r fforwm am eu holl gefnogaeth a'u brwdfrydedd yn ystod ei chyfnod fel Ysgrifennydd Gweithredol a dywedodd y byddai Emma mewn cysylltiad ar ôl dechrau'n ôl yn ei swydd.

Diolchodd y fforwm i Katie am ei hymdrechion dros y chwe mis diwethaf.

05/07 Aaron Sollis (Arolwg Ordnans Cymru)

Rhoddodd Aaron, o ochr Casglu a Rheoli Data AO Cymru gyflwyniad am rôl a swyddogaeth y sefydliad.

Trafododd Aaron y sefydliadau niferus sy'n defnyddio gwybodaeth ddaearyddol AO Cymru i redeg eu busnesau.

Dywedodd Aaron bod gan Arolwg Ordnans gyfanswm o 320 o staff maes yn y DU gyfan, gyda rhai graddau rheoli a rolau gweinyddol. Yng Nghymru mae 20 o syrfëwyr a 4 rôl weinyddol / rheoli, a cheir swyddfeydd yng Nghaerdydd, Llandrindod a Chonwy.

Mae'r AO yn arolygu 'newid' yn bennaf megis tai, ffyrdd, ffiniau caeau - nodweddion topograffeg. Maent hefyd yn casglu rhwydweithiau ar gyfer llywio lloeren i ddefnyddio a mynd i'r afael â phwyntiau.

Caiff "haen delweddaeth" yr AO ei chanfod o'u hadran hedfan neu ffynonellau allanol. Mae 440 miliwn o wrthrychau yn y set data craidd yn Southampton, a ddiweddarir bob dydd.

Yn Lloegr (nid yw ar gael yng Nghymru na'r Alban), defnyddir setiau data hefyd i alluogi'r llywodraeth i blotio 'cylchedau bywyd' tiroedd.

Dywedodd Aaron bod y prosesau a ddefnyddir gan dîm yr AO heddiw yn llawer mwy effeithlon na rhai'r gorffennol. Y dyddiau hyn mae gan bob syrfëwr liniadur i ddiweddaru gwybodaeth ar y safle ac mae gan un o bob dau syrfëwr fynediad at offer GPS.

Mae'r Arolwg Ordnans yn prosesu 5,000 o newidiadau bob dydd; mae'r newidiadau'n mynd i setiau data ac yn cael eu dilysu ac yna eu rhyddhau i gwsmeriaid.

Mae'r sefydliad yn anelu at fapio'r mwyafrif o newidiadau mawr o fewn 6 mis ac mae 'newid' i gynnyrch yn cymryd 3-4 mis.

Mae'r Arolwg Ordnans yn gweithio mewn amgylcheddau 2 ddimensiwn yn bennaf, ond mae mwyfwy o gleientiaid yn gofyn am 3D er mwyn cael gwell deallusrwydd - gwasanaeth y bydd yr AO yn ei ymestyn dros y blynyddoedd nesaf.

Maent hefyd yn buddsoddi mwy mewn technoleg newydd fel technoleg diwifr, LIDAR (radar) a faniau fideo.

Argymhellodd Aaron y dylech gysylltu ag adran Gwasanaethau Cwsmer yr AO os oes gennych gwestiynau ac ymholiadau:
Ordnance Survey Customer Care,
Romsey Road,
Southampton,
SO16 4GU.
Ffôn: 08456 05 05 05.

06/07 CGHT (Martin Howorth)

Dywedodd Martin y bydd copi drafft o'r CGHT yn cael ei roi i swyddogion mewnol CBSW trwy gydol Chwefror ac i Bwyllgor Archwilio Adfywiad Amgylcheddol ar 28 Mawrth gobeithio.

Dywedodd Martin y bydd y Pwyllgor Archwilio yn ystyried y cynllun cyn iddo gael ei anfon at ymgynghoriad cyhoeddus.
Y dyddiad y dylai aelodau'r fforwm fynd trwy'r CGHT drafft ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alun yw **dydd Gwener 9 Mawrth 2007 am 1.30pm.**
Os nad yw'r dyddiad yn gyfleus i aelodau'r fforwm ac os ydynt yn dymuno rhoi sylwadau am y cynllun, bydd y ddogfen yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau'r gwanwyn / haf (ymgynghoriad cyhoeddus statudol Mai-Gorffennaf).
Awgrymodd Martin y dylid ei anfon ar gryno ddisg i ostwng costau. Bydd angen rhoi sylwadau a geir o'r ymgynghoriad ar wefan CBSW hefyd.

Rhagwelai Martin y byddai'r Bwrdd Gweithredol yn ei gymeradwyo tua mis Medi, cyn cyhoeddi'r ddogfen ym mis Hydref (cyn y terfyn amser ym mis Tachwedd).

Soniodd Martin hefyd y bydd y Cadeirydd / Is-gadeirydd yn dymuno bod yn bresennol yn y Pwyllgor Archwilio Adfywiad Amgylcheddol. Dywedodd Martin na fyddent yn bendant yn cael hawl i siarad, ond cytunodd Clive y byddai'n syniad da i Ieuan neu yntau fynd i glywed y drafodaeth.

GWEITHREDU: Aelodau i gysylltu â'r Ysgrifennydd i ddweud ym mha fformat y dymunant gael copi drafft o'r CGHT.

Bydd Clive ac Ieuan yn trefnu presenoldeb yn y Pwyllgor Archwilio.

07/07 Adroddiad gan Geidwaid Mynediad

Roedd Sion wedi bod yn treulio llawer o'i amser yn ymdrin â chwynion ac yn cysylltu â chontractwyr. Mae gwaith wedi dechrau'n ddiweddar ar godi oddeutu 50 o arwyddion newydd gyda chyrchfannau wedi'u hargraffu mewn lleoliadau amrywiol ledled y sir. Mae gwaith clirio ac arwynebu wedi'i wneud ar lwybr marchogaeth rhif 18 yn Worthenbury sy'n mynd o Threapwood i Lôn Mulsford.
Bydd gwaith clirio a chodi clwydi marchogaeth newydd ar lwybr marchogaeth rhif 29 yn Willington (sy'n mynd o'r A525 i'r lôn ger Fferm Hillside) yn digwydd ym mis Chwefror.
Wedi i Ysgol Uwchradd Bryn Alun godi pryderon am aelodau o'r cyhoedd yn torri ar draws tiroedd yr ysgol, oherwydd bod yr hawl tramwy gwreiddiol wedi'i atal, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i adfer yr hawl tramwy.
Bydd Sion yn arwain taith gerdd dywysedig ddydd Mercher 14 Chwefror yn dechrau ym maes parcio Craig y Forwyn. Ceir manylion yn llyfryn "Gwybodaeth a Digwyddiadau 2007 " y Gwasanaeth Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Mae Alison wedi bod yn cysylltu â Groundwork am Brosiect Llwybr Cymunedol Brymbo lle mae gwaith wedi dechrau bellach.
Mae'r contractwyr yn gweithio'n gyntaf ar glirio llystyfiant cyn gosod camfeydd/pontydd. Ar ôl i'r contractwyr ddechrau gosod y camfeydd bydd Alison yn trefnu bod cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r prosiect.

Mae Alison yn edrych ar opsiynau ar gyfer y prosiect nesaf, a allai gynnwys ardaloedd Coedpoeth neu Rhos/Penycae. Byddai Coedpoeth yn berffaith gan y gellid ei gysylltu â phrosiect Brymbo. Bydd yn dibynnu ar yr ymateb a gaiff y prosiect gan gymunedau lleol.

Ar ôl y tywydd garw, mae Alison wedi bod yn ymdrin â chwynion cyffredinol am goed sydd wedi disgyn dros lwybrau cerdded ac yn ymdrin i ddechrau â cheisiadau dargyfeirio cyn eu hanfon at Pete Bland.

Adroddodd Dave Smith ei fod wedi bod yn ymchwilio i 'arwyddion cŵn' y mae siroedd cyfagos yn eu defnyddio. Dangosir amrywiad bach yng ngogledd Cymru ac mae'r mwyafrif o dirfeddianwyr yn defnyddio arwyddion yr FUW.
Defnyddir rhai sydd wedi'u dylunio'n arbennig hefyd. Mae Dave wedi cael dyfynbris o £10.20 yr un am gopïo'r arwyddion Aardman Animation.

O ran gwaith mynediad agored, mae Dave wedi bod yn gweithio'n agos gyda chontractwr i nodi a chynllunio gwaith gwella mynediad agored presennol ac i'r dyfodol. Fodd bynnag, mae gwaith yn symud ychydig

yn arafach na'r disgwyl oherwydd bod Groundwork wedi symud o Borras i safle Plas Power.

Mae Dave wedi bod yn wardeinio'r ardal bob yn ail benwythnos ac ni all hysbysu o unrhyw faterion mawr. Ar nos calan, roedd ardal Mynydd Rhiwabon i gyd yn brysur.

08/07 Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Adroddodd Alun Price bod swyddfa CCGC yn y Bala ar fin cau'r wythnos ddilynol ac y dylid cyfeirio ymholiadau i'r Pencadlys ym Mangor neu'r swyddfa leol.
Adroddodd Alun hefyd bod CCGC yn cymryd rhan gynyddol mewn partneriaethau mynediad arfordirol.

09/07 Unrhyw faterion eraill

Cododd Mabyn Pickering faterion posibl o ran y cyn Eco-ganolfan ar safle Legacy a'r giât ym Mharc Gwledig Bonc yr Hafod.

Dywedodd Mabyn bod llwybr troed yn yr Eco-ganolfan sydd wedi cau yn cysylltu i lwybr troed ar fap terfynol o Rostyllen a dymunai gael eglurhad pellach gan yr adran Hawliau Tramwy.

O ran yr Hafod, roedd preswylydd lleol wedi holi Mabyn ynglŷn â mynediad gan nodi nad oedd y rhwystr diogelwch wedi'i agor gan y contractwr ar fwy nag un achlysur.
Ymatebodd Martin Howorth trwy ddweud bod y Cyngor yn ymwybodol bod problem yn yr Hafod a bod y mater yn cael ei ymchwilio.

Ar nodyn gwahanol, gofynnodd Karl sut oedd y gwaith arolygu gwirfoddol yn mynd a dywedodd Clive y byddai'n ymateb i Karl yn bersonol gan ei fod yn mynd i weld John Marchant.
GWEITHREDU: Dave Smith a Pete Blant i ymchwilio i'r ymholiad ynghylch yr Eco-ganolfan yn y cyfarfod nesaf.

10/07 Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf

Bydd Clive yn cynhyrchu adroddiad blynyddol a ddosberthir trwy'r Ysgrifennydd.
GWEITHREDU: Ysgrifennydd i'w gylchredeg.

11/07 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf.

Ystafell Bwyllgor 3, Neuadd y Dref ddydd Gwener 4 Mai 2007 am 1.30pm.